------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(223)V4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**4 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adfywio Canol Trefi (30 munud)**

**6 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 (15 munud)**

**NDM5598 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2014.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *dim pwyntiau adrodd*

**7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru) (60 munud)**

**NDM5597 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Uwch (Cymru)

Gosodwyd Bil Addysg Uwch (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 19 Mai 2014;

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Uwch (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 3 Hydref 2014.

**Dogfennau Ategol**

Bil Addysg Uwch (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**8 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch (Cymru) (5 munud)**

**NDM5596 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg Uwch (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**9 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (60 munud)**

**NDM5595 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru: 'Diogelu a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol'.

Cewch weld copi o'r adroddiad drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.equalityhumanrights.com/cy/publication/diogelu-hybu-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Caethwasiaeth Modern a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2014 sy'n cynnig y dylid cyflwyno cosbau llymach ar gyfer masnachwyr mewn pobl ac sydd â'r nod o wella sut y caiff dioddefwyr eu gwarchod.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod gorfodi rhywun i briodi yn erbyn ei ewyllys yn awr yn drosedd.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob ysgol aelod hyfforddedig o staff sydd â'r arbenigedd i adnabod plant sy'n dangos arwyddion o fod yn dystion i gam-drin domestig.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i atal anffurfio organau cenhedlu benywod.

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran cael menywod i swyddi o awdurdod a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod parhau i fod yn llofnodwr i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o fudd i Gymru.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r rôl sylfaenol y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei chwarae wrth ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

**10 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Hydref 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Hydref 2014 i'w hateb ar 14 Hydref 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU ynghylch datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)1901(FM)

2. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella canlyniadau iechyd yng Nghanol De Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)1900(FM)

3. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru i ganfod niwed i'r llygaid sy'n gysylltiedig â diabetes? OAQ(4)1902(FM)

4. **Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar siarter iaith 'Tanio'r Ddraig' ysgolion clwstwr Ystalyfera? OAQ(4)1892(FM)**W**

5. **David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)1899(FM)

6. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd ymateb ambiwlansys yn Nwyrain De Cymru cyn dechrau pwysau'r gaeaf? OAQ(4)1885(FM)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r angen i newid ffiniau cyfredol NUTS2 a NUTS3? OAQ(4)1890(FM)

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y caiff penderfyniad Llywodraeth y DU i dorri'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar Gymru? OAQ(4)1891(FM)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr agenda ar gyfer darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn? OAQ(4)1903(FM)**W**

**10. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y bydd toriadau i gyllideb llywodraeth leol yn effeithio ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)1897(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gofal iechyd a ddarperir i bobl sydd â thiwmorau niwroendocrin sy'n byw yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1887(FM)

**12. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch cynnwys asesiadau iaith yn y Bil Cynllunio? OAQ(4)1896(FM)**W**

**13. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar fynediad i feddygfeydd yng Nghymru? OAQ(4)1895(FM)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1886(FM)

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i brif strydoedd lleol? OAQ(4)1893(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Hydref 2014 i'w hateb ar 14 Hydref 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r ddarpariaeth o leoedd ar gynlluniau prentisiaeth yng Nghymru yn ystod 2015/16? OAQ(4)0486(ESK)

2. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth o wasanaethau i blant ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru? OAQ(4)0483(ESK)

3. **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog nodi ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ym maes addysg yn sgil y cytundeb diweddar ar y gyllideb? OAQ(4)0482(ESK)

4. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu cynlluniau i wella ansawdd addysg plant yng Nghymru? OAQ(4)0484(ESK)

5. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar addysg grefyddol yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0474(ESK)

6. **Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r berthynas rhwng Twf Swyddi Cymru a rhaglenni gwaith Llywodraeth y DU? OAQ(4)0487(ESK)

7. **Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael parthed datblygu ysgolion milfeddygol yng Nghymru? OAQ(4)0476(ESK)**W**

8. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r Grant Amddifadedd Disgyblion? OAQ(4)0471(ESK)

**9. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer darparu addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0481(ESK)

**10. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch ehangu addysg cyfrwng Cymraeg? OAQ(4)0478(ESK)

**11. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru? OAQ(4)0472(ESK)

**12. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella ysgolion yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0473(ESK)

**13. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar addysg gorfforol yn ein hysgolion? OAQ(4)0477(ESK)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch adroddiad gwerthuso Prifysgol Caeredin? OAQ(4)0479(ESK)**W**

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllid ar gyfer prentisiaethau i bobl dros 25 oed? OAQ(4)0470(ESK)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru erbyn 2016? OAQ(4)0472(EST)

**2. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant ar ffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0473(EST)**W**

**3. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu cymorth i fusnesau bach yng Nghymru erbyn diwedd 2014? OAQ(4)0458(EST)

**4. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar welliannau i orsafoedd trenau i'r gorllewin o Gaerdydd? OAQ(4)0465(EST)**W**

**5. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella'r A55? OAQ(4)0471(EST)

**6. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Sut y bydd Caerdydd yn elwa ar y gyllideb a ddyrannwyd i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0468(EST)

**7. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynlluniau i ailagor yr orsaf drenau yn Bow Street, rhwng Aberystwyth a Machynlleth? OAQ(4)0460(EST)**W**

**8. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun peilot cyffordd 41 ar yr M4?** OAQ(4)0463(EST)

**9. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant awyrofod yng Nghymru? OAQ(4)0461(EST)

**10. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0464(EST)

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu economi dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(4)0462(EST)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cau Ffordd Goedwig Cwmcarn ar fusnesau yn Islwyn? OAQ(4)0466(EST) **Trosglwyddwyd i'w ateb yn Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

**13. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch datblygu rhyddfraint rheilffyrdd dielw? OAQ(4)0470(EST)

**14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Treftadaeth? OAQ(4)0467(EST) **TYNNWYD YN ÔL**

**15. Gwyn Price (Islwyn):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae polisïau Llywodraeth y DU wedi'i chael ar economi Cymru? OAQ(4)0469(EST)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 21 Hydref 2014 a dydd Mercher 22 Hydref 2014**
**Toriad: Dydd Llun 27 Hydref 2014 – Dydd Sul 2 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 5 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 12 Tachwedd 2014**
************************************************************************

**Dydd Mawrth 21 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd (45 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Iawndal TB – Y Camau Nesaf (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (15 munud)
- Dadl: Dyfodol Datganoli i Gymru (60 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud)
- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 22 Hydref 2014**

## Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

## Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Lynne Neagle (Torfaen) (30 munud)

## Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2014

## Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Perfformiad o ran Ailgylchu (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2013-14 (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)

## Dydd Mercher 5 Tachwedd 2014

## Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi – Ymateb gan Lywodraeth Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Y Cyflenwad Tai (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd (30 munud)
- Dadl: Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 12 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)